# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

**RHAN 2**

CWRICWLWM MEWN YSGOLION A GYNHELIR, YSGOLION MEITHRIN A GYNHELIR AC ADDYSG FEITHRIN A GYLLIDIR OND NAS CYNHELIR

**PENNOD 4**

GWEITHREDU CWRICWLWM: EITHRIADAU

## 42 Eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol

(1) Caiff rheoliadau alluogi pennaeth ysgol a gynhelir neu ysgol feithrin a gynhelir i benderfynu, mewn achosion neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau—

(a) bod adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, i'w datgymhwyso mewn perthynas â disgybl cofrestredig yn yr ysgol yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad, neu

(b) bod adrannau 27, 28, 29 a 30, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, i'w cymhwyso mewn perthynas â disgybl cofrestredig yn yr ysgol, yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad, gyda'r addasiadau a bennir yn y penderfyniad.

(2) Caiff rheoliadau alluogi darparwr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir i benderfynu, mewn achosion neu o dan amgylchiadau a bennir yn y rheoliadau—

(a) bod adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, i'w datgymhwyso, yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad, mewn perthynas â phlentyn y darperir yr addysg ar ei gyfer, neu

(b) bod adrannau 34, 35 a 36, neu unrhyw un neu ragor o'r adrannau hynny, i'w cymhwyso mewn perthynas â phlentyn o'r fath, yn ystod y cyfnod a bennir yn y penderfyniad, gyda'r addasiadau a bennir yn y penderfyniad.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(3) Os gwneir rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid iddynt ddarparu na chaiff person wneud penderfyniad o dan y rheoliadau oni bai ei fod wedi ei fodloni y bydd y cwricwlwm a gaiff ei weithredu i'r disgybl neu'r plentyn o ganlyniad i'r penderfyniad—

(a) yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,

(b) yn sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer pob disgybl neu blentyn,

(c) yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y disgybl neu'r plentyn,

(d) yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol y disgybl neu'r plentyn (os oes rhai), ac

(e) yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i'r disgybl neu'r plentyn.

(4) Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon bennu amodau pellach y mae rhaid eu bodloni cyn y caniateir i benderfyniad gael ei wneud o dan y rheoliadau.